# DYFODOL I'R IAITH

Ymateb Dyfodol i'r Iaith i Gynllun Datblygu Lleol (CDLl) Cyngor Sir Gâr 2018 – 2033

# Mae CDLl Cyngor Sir Gâr 2018-2033 yn cynllunio ar gyfer adeiladu 8,822 o dai

Barn **Dyfodol i'r Iaith** yw nad oes angen 8,822 o dai newydd yn Sir Gâr oherwydd:

- Nid oes twf naturiol yn y boblogaeth
  - Marwolaethau yn uwch na genedigaethau ers 2000
  - Pobl ifanc - allfudo cyson a sylweddol o'r sir.
- Does dim digon o swyddi newydd yn cael eu creu i gymryd lle swyddi coll yn dilyn cau busnesau megis *Debenhams, H&M, Topshop, Monsoon, Fat Face, Schaeffler, Calsonic, AIM Altitu*de, a rhai banciau, ac ati.
- Mae'n gyfnod o ansicrwydd ariannol sylweddol yn sgil Brecsit a Covid 19. Dylai creu swyddi i bobl leol fod yn flaenoriaeth a chredwn nad yw'r sefyllfa economaidd yn cyfiawnhau adeiladu cymaint o dai newydd. Mae'n debygol bydd Yr Egin a Pentre Awel yn creu nifer o swyddi newydd, ond, yn gyffredinol, dyw'r argoelion am dwf yr economi ddim yn ffafriol.
- Heb 3,000* o swyddi newydd i gymryd lle'r swyddi coll, pam fod angen yr holl dai newydd yn y sir?

**tud 27/28 'Carmarthenshire Economic Recovery & Delivery Plan Ebrill 2021 a gyflwynwyd i Gabinet Cyngor Sir Gâr 21 Mehefin 2021*

***.../parh***

*parhad/*

# Tai ar werth, adeiladau gwag a blaenoriaethau

- Nid oes data ar gael am y cyfanswm o dai sydd ar werth yn y sir; credir ei fod yn nifer sylweddol. Nid yw tai ar werth yn cael eu cynnwys yn y CDLl ond maent yn rhan bwysig o stoc dai y sir ac ar gael i brynwyr.

- Mae adeiladau gwag (megis siopau, swyddfeydd, banciau, capeli) ar gael i'w haddasu'n gartrefi. Yn ôl ymchwil gan gwmni **Good Move (Awst 2021)**, roedd 2,964 o dai gwag yn Sir Gaerfyrddin. Dyma'r nifer uchaf ymhlith siroedd Cymru.

- Mae amcangyfrif y Cyngor yn nodi agos at 2,000 o dai gwag yn y sir.

- Mae angen mynd i'r afael â phroblemau penodol megis digartrefedd, yr angen am gartrefi cymdeithasol a chartrefi fforddiadwy i bobl y sir. Credwn nad oes angen adeiladu 8,822 o dai newydd i ddatrys y problemau hyn.

# Llywodraeth Cymru a'r Gymraeg – Deddfwriaeth a Pholisiau.

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 …. Cymru gyda diwylliant bywiog a'r Gymraeg yn ffynnu
- Miliwn o Siaradwyr Cymraeg ….. yn argymell cryfhau'r berthynas rhwng cynllunio ieithyddol a chynllunio defnydd tir
- Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 …. creu amodau i'r Gymraeg ffynnu a pharhau i fod yn iaith gymunedol. Creu'r amodau i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

# Sefyllfa Sir Gâr

- Mae'r CDLL yn llawer llai ffafriol i'r Gymraeg na pholisi cynllunio **Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Ce … ol 2040**, Llywodraeth Cymru, 2021.

- Mae Cyfrifiad 2011 yn nodi bod 24% o boblogaeth y Sir wedi eu geni y tu allan i Gymru; mae Cyfrifiad 2021 yn dangos cynnydd i 26.4%. Credwn bod y CDLl yn annog mwy eto o fewnfudo. Nid yw'r mewnfudo yn syndod:
    - Mae prisiau tai llawer yn is nag mewn nifer o ardaloedd y Deyrnas Gyfunol
    - Mae'n sir ddymunol o ran cyfleusterau hamdden, ansawdd bywyd a golygfeydd
    - Heb swyddi newydd ni fydd tai newydd yn cadw pobl yn y Sir; yn hytrach, mae'n debyg y bydd y tai yn denu pobl sydd wedi ymddeol neu sy'n gallu gweithio o bell.

- Mae pryderon dybryd am effaith polisi cynllunio ar y Gymraeg:
    - Pa ddarpariaeth sydd i ddysgu Cymraeg i oedolion sydd yn symud i fyw yn y Sir?
    - A oes gwybodaeth ar gael am sawl mewnfudwr i'r Sir sydd bellach yn rhugl yn y Gymraeg?

- Er lles economi Sir Gâr yn ogystal â chymunedau Cymraeg eu hiaith, mae angen i'r CDLl ganolbwyntio ar anghenion pobl ac economi y Sir yn hytrach na gor-amcangyfrif y nifer o dai sydd eu hangen, ac felly, bwydo'r mewnfudo o ardaloedd di-Gymraeg.

## Yn rhannu'r amheuon am 8,822 o dai – sylwadau a gyflwynwyd i'r Cyngor Sir am y Cynllun Datblygu Lleol

Mae **Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040**, cynllun Llywodraeth Cymru 2021, yn nodi'r amcangyfrif canolog o 5,000 – 6,250 o dai newydd ar gyfer y sir rhwng 2020-2040. Pam nad yw Cyngor Sir Gaerfyrddin yn derbyn yr amcangyfrif canolog hwn?

Cyflwynwyd y sylwadau canlynol i'r Cyngor Sir mewn ymateb i'r Cynllun Datblygu Lleol:

- Llywodraeth Cymru .... yn bryderus am yr effaith ar y Gymraeg a thynnu sylw at fewnfudo

- Comisiynydd y Gymraeg **...** yn bryderus bod cyfanswm y tai yn y CDLl yn rhy uchel

- Cymdeithas yr Iaith Gymraeg .... yn bryderus ynglŷn â realiti y sefyllfa economaidd, diffyg tystiolaeth gadarn i gefnogi'r CDLl a'r perygl i gymunedau Cymraeg

# Barn arbenigwr am y cyflenwad tai ...

Mae ymchwil gan Ian Mulheirn* ar sail ystadegau Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol yn dod i'r casgliad nad oes prinder tai, fel y cyfryw, yn y Deyrnas Gyfunol.

Ei gasgliad yw fod gormodedd o dai – yr amcangyfrif yng Nghymru oedd 56,000 yn ormod yn 1996 ond wedi codi i 92,000 erbyn 2017.

Mae dogfen Llywodraeth Cymru "Amcangyfrifon Stoc Anheddau," 2019, yn ategu casgliad Mulheirn.

**Ian Mulheirn – cyn-economegydd yn y Trysorlys, a Chyfarwyddwr Ymgynghori gyda Oxford Economics. Bellach, mae'n Gyfarwyddwr Gweithredol a Phrif Economegydd gyda "Renewing the Centre", sefydliad a grewyd gan y cyn Brif Weinidog, Tony Blair.*

# Casgliadau Dyfodol i'r Iaith

Cred Dyfodol i'r Iaith nad oes angen 8,822 o dai newydd yn Sir Gâr. Mae angen newid pwyslais yn y CDLl o ddefnydd tir i'r effaith ar gymunedau, gan gynnwys effaith ar ein cymunedau Cymraeg eu hiaith. Dylid adolygu'r nifer o dai i'w hadeiladu.

Cred Dyfodol i'r Iaith:

- nad oes tystiolaeth gadarn o angen cymaint o dai newydd yn y Sir
- nad yw sefyllfa economaidd y Sir yn ddigon cadarn i alw am adeiladu cymaint o dai
- bod effeithiau'r CDLl ar gymunedau Sir Gâr a gwasanaethau lleol yn debygol o fod yn negyddol
- bydd y CDLl yn cael effaith difrifol ar yr iaith Gymraeg a chymunedau Cymraeg yn y Sir
- bod darlun cyfredol Cyfrifiad 2021 o ddirywiad ieithyddol Sir Gâr yn galw am weithredu cadarn gan gynnwys newid mwy sylweddol i'r nifer o dai yn y CDLl.

*Noder: Mae Dyfodol i'r Iaith wedi paratoi dogfen Gymraeg yn manylu ar gynnwys y sleidiau. Mae croeso i chi gael copi oddi wrth Wyn Thomas, aelod o Fwrdd Dyfodol i'r Iaith –* [redacted]

# Canlyniadau’r Cyfrifiad 2021

- Dengys canlyniadau cyfredol Cyfrifad 2021, sefyllfa  dirywiad ieithyddol Sir Gâr.
- Sir Gâr welodd y dirywiad ieithyddol mwyaf trwy Gymru yn ôl Cyfrifiad 2021.
- Byddai cymeradwyo 8,000+ o dai ychwanegol i’r stoc yn cyflymu’r patrwm presennol o ddirywiad ieithyddol.
- Byddai cymeradwyo’r CDLl, fel ag y mae, yn arwain at greu sefyllfa ieithyddol o ddirywiad fydd yn rhy ddifrifol i ni allu gwrthdroi trwy waith y sector addysg a phrosiectau arbennig.